# Cyngor Cymuned LLANBEDROG Community Council

## Cofnodion Cyfarfod Hybrid 31 Hydref 2023 am 7:00 yr hwyr.

**Presennol**

John Brinley Jones (C), Thomas Victor Jones, Hywel James Sinclair Evans,
William Roger Jones, Alan Harper-Smith, Gwenllian Davenport Hughes, Greta Hughes,
Ann Llwyd (Cyfieithydd), Carys Jones (Clerc)

**1. Ymddiheuriadau**

David Andrew Parry
Ian Goronwy Williams

**2. Datgan Buddiant**
Dim

**3. Derbyn Cofnodion Cyfarfod 3 Hydref 2023**
Cynnig: Thomas Victor Jones
Eilydd: William Roger Jones

**Unrhyw Fater Brys**

**Seddi Gwag**
Adroddodd y clerc ei bod wedi cael sgwrs hefo Mr Twrog Jones yn ystod y penwythnos a'i fod wedi penderfynu peidio sefyll.

Adroddodd y Cadeirydd fod Mr Kevin Wheatley wedi mynegi diddordeb.
Cynigwyd fod y clerc yn gwahodd Mr Kevin Wheatley i'r cyfarfod nesaf ac yn gofyn iddo ddod â chopi o'i CV hefo fo i'r cyfarfod.

**Cyfyngiadau 20 milltir yr awr**
Adroddodd y cadeirydd fod y clerc wedi cysylltu hefo Cyngor Gwynedd i holi beth yw'r broses i ofyn am eithriadau mewn ardaloedd penodol. Nododd fod Cyngor Gwynedd wedi ymateb ac wedi datgan y bydd eithriadau ac unrhyw sylwadau yn cael eu hadolygu gan y Cyngor ym mis Hydref 2024.
Dywedodd Alan Harper-Smith ei fod yn siomedig gydag ymateb Cyngor Gwynedd. Nododd fod hyn yn amser hir iawn i aros am adolygiad. Cwestiynodd y Cadeirydd pam na ellir gwneud mwy o ddefnydd o dechnoleg i helpu'r sefyllfa ee rheoli ee i beidio cael cyfyngiadau mewn lle yn gynnar yn y bore?
Derbyniwd fel gwybodaeth.

**Lôn Pin Solar**
Nododd y Cadeirydd fod nifer o lythyrau wedi dod i law yn mynegi gwrthwynebiad i'r cynllun yma. Adroddodd ymhellach nad oes cais cynllunio wedi cael ei gyflwyno hyd yn hyn.

**Cabinet**
Adroddodd y Cadeirydd fod ganddo nifer o bapurau Cyngor Cymuned Llanbedrog sydd angen cael eu cadw dan glo yn y Neuadd Dangosodd lun a phris ddau gabinet posib gyda chlo i'r aelodau.
Cynnig: Hywel James Sinclair Evans
Eilio: Greta Hughes
Cytunwyd yn unfrydol fod y Cadeirydd yn archebu un cabinet i storio papurau'r Cyngor.

**Anaf Personol**
Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn llythyr gan Strain a'i Gwmni sydd yn cynrychioli unigolyn sydd wedi cael damwain ar y bont fechan sydd yn arwain o Lôn Nant Iago i Eglwys Sant Pedrog. Mae'r llythyr yn holi pwy sydd berchen y tir ble mae'r bont fechan ger Eglwys Sant Pedrog: *"whether this land where the bridge is located belongs to the Church itself or the Local County Council".*
Cadarnhaodd y Cadeirydd mai'r Cyngor Cymuned sydd berchen y tir yma ac wedi ei dderbyn yn rhodd gan yr Eglwys. Derbyniwyd fel gwybodaeth. Bydd y Clerc yn ysgrifennu at Strain a'i Gwmni i ymateb i'r llythyr.

**4. Llwybrau**
Adroddodd y Cadeirydd fod nifer o gwynion wedi cael eu derbyn am gyflwr y llwybrau yn yr ardal. Bydd y Cyngor Cymuned yn gweithio ar gytundeb newydd ym mis Mawrth 2024. Awgrymwyd rhoi hysbyseb yn Llanw Llŷn yn nes at yr amser. Adroddodd y Cadeirydd ymhellach fod angen sicrhau pecyn iawn i gynnwys manylion am y llwybrau a pryd fydd pob un angen sylw. Nododd Thomas Victor Jones fod ambell lwybr wedi cael ei dorri'n hwyr iawn eleni, ond fod y llwybr ger y fynwent a'r cae chwarae yn iawn.

Adroddodd Greta Hughes fod y llecyn ger yr afon angen sylw - angen cael ei dorri. Adroddodd ymhellach fod angen manylion mwy penodol yn y cytundeb newydd, yn nodi'n glir nifer y toriadau fydd eu hangen, ar opsiwn i alw i dorri yn ôl yr angen. Mae mapiau ar gael am y llwybrau ar wefan Cyngor Gwynedd ac mae ychydig o waith wedi cael ei wneud ar Google Earth hefyd (dilyn y llinell felen).

Awgrymodd Thomas Victor Jones fod y Cyngor Cymuned yn rhoi blaenoriaeth i'r llwybrau sydd yn cael eu defnyddio fwyaf ac yn cael eu cerdded gan y cyhoedd yn rheolaidd.

Yn y cyfarfod diwethaf fe nododd David Andrew Parry ei fod yn bryderus am faes parcio Cil Dwrn oherwydd bod yna dair coeden dal yn y lleoliad yma a fod un goeden wedi disgyn yn barod. Adroddodd y Cadeirydd fod y Clerc wedi cysylltu hefo Cyngor Gwynedd a bod gweithwyr y Cyngor wedi bod ym maes parcio Cil Dwrn yn tocio'r coed. Awgrymwyd rhoi'r mater yma ar agenda'r cyfarfod nesaf er mwyn rhoi cyfle i aelodau'r Cyngor Cymuned i ymweld â'r lleoliad yma.

**5. Y Fynwent Newydd**
Dim gwybodaeth bellach wedi ei dderbyn. Cytunwyd i gadw golwg am unrhyw dir addas. Awgrymodd y Cadeirydd fod y Cyngor yn ystyried Cae Bryn Gro.
Cynigiodd Thomas Victor Jones fod y Cyngor yn cysylltu hefo Mr Grant i wneud ymholiadau.
Eilio: William Roger Jones

Cytunwyd yn unfrydol.

Adroddodd y Cadeirydd ei fod yn parhau i ddisgwyl am ymateb gan y Bwrdd Dŵr a Chyngor Gwynedd ynglŷn â'r beipen ddŵr, sydd yn rhedeg o dan y tir sydd wedi bod o dan ystyried ar gyfer y fynwent newydd. Yn ôl un adroddiad mae'r beipen yn cael ei defnyddio ond yn ôl adroddiad arall, nid yw'r beipen yn cael ei defnyddio. Nododd Greta Hughes fod asesiad wedi cael ei wneud yn y gorffennol gan y Bwrdd Dŵr ac Adran yr Amgylchedd. Dywedodd John Brinley Jones y byddai o'n cysylltu hefo'r Bwrdd Dŵr a Chyngor Gwynedd unwaith eto.

**6. Cae Chwarae**

Adroddodd Hywel James Sinclair Williams na fu cyfarfod yn ystod mis Hydref gan fod pawb i ffwrdd. Holodd Greta Hughes os fydd y tractor yn ddigonol ar gyfer torri'r gwair yn y cael chwarae? Nododd fod yr Ambiwlans Awyr yn defnyddio'r cae chwarae hefyd. Atebodd Hywel James Sinclair Williams nad oedd o yn bersonol wedi defnyddio'r tractor ond ei fod yn ymwybodol fod angen trwsio'r sied.

Holodd Greta Hughes os fyddai Cyngor Gwynedd yn fodlon torri'r gwaith ddwy waith y flwyddyn? Holodd hefyd os mai gwirfoddolwyr fyddai'n defnyddio'r tractor i dorri'r gwair? Os hynny, pwy fydd yn gyfrifol am yswiriant ar gyfer y tractor? Cytunodd Hywel James Sinclair Williams i holi ac i adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf. Gofynnodd Greta Hughes am gael gweld copi o'r polisi yswiriant a nododd fod angen gwneud asesiad risg.

**7. Neuadd y Pentref – Diweddariad**

**Trydan**

Nododd y Cadeirydd ei fod wedi bod yn edrych ar y cytundeb trydan a'i fod wedi bod yn edrych ar gytundeb newydd a phris teg. Wedi bod yn ceisio osgoi prisiau allan o gontract. Y pris gorau ar gael ar hyn o bryd yw 28c yr uned. Bydd angen chwilio am gytundeb newydd ganol haf y flwyddyn nesaf.

**Dreiniau**

Nododd Gwenllian Davenport Hughes ei bod yn parhau i aros am amcan bris arall ar gyfer y gwaith o ddadflocio'r dreiniau ac angen sicrhau fod y gwaith yn cynnwys adnewyddu'r beipen hefyd. Nid oes sicrwydd eto y bydd y polisi yswiriant yn talu am y gwaith yma

Adroddodd Thomas Victor Jones y byddai hi'n werth cysylltu hefo'r cwmni yswiriant ar ôl derbyn dau amcan bris.

**Taliadau i'w cymeradwyo:**

(1) **Ann Llwyd - £ 70.00**
(2) **R M Fisher - £495.00**
(3) **PAYE - £578.24**
(4) **Tanysgrifiad Zoom - £143.88**
Adroddodd y Cadeirydd fod Zoom wedi cymryd £143.88 o fanc Pat ( y cyn Glerc).
Ffi -blynyddol ar gyfer tanysgrifiad zoom oedd hwn ac mae Pat eisiau'r arian yma'n ôl.

**Taliadau wedi eu derbyn** - dim

**Ceisiadau Cynllunio:**
Dim cais wedi dod i law.

**Unrhyw Fater Arall**
Mynegodd aelodau o'r Cyngor Cymuned eu cydymdeimlad dwysaf i John Brinley Jones (Cadeirydd) sydd wedi colli ei fam yn ddiweddar.

**Llifogydd Ger Penyberth**
Mynegodd y Cadeirydd ei bryder fod llifogydd yn dod yn broblem reolaidd yn y lleoliad yma pan y bydd hi wedi bod yn glawio'n drwm. Ymddengys fod yr afon yn mynd o dan y lôn ac o ganlyniad nad oes gan y dŵr un man i fynd.
Dywedodd Greta Hughes fod angen harbwr bach mewnol ger y ffair ym Mhwllheli neu sianel i helpu i reoli'r dŵr. Efallai fod Lôn Gogledd Cei Pwllheli yn opsiwn? Cytunodd yr aelodau i feddwl am hyn ac i drafod y mater ymhellach yn y cyfarfod nesaf.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf: 28/11/23 am 7 yr hwyr.**